

Llyfr Adolygu

Blwyddyn 7


Mathemateg

Dr. Gareth Evans

Ar ddiwedd pob uned o waith, rhaid cwblhau o leiaf **pedair** tudalen yn y llyfr yma. Cofiwch gynnwys:

- Sylwadau am y gwaith;
- Mathemateg sy'n gywir;
- Amrywiaeth o enghreifftiau.

Ceisiwch gymryd balchder yng nghyflwyniad eich gwaith.



Rwyt wedi cynnwys nifer fawr o sylwadau deallus am dy waith. Nid oes camgymeriadau yma. Mae'r adolygu yn fanwl ac yn drylwyr. Mae cymysgedd da o enghreifftiau i'w gweld. Mae'r cyflwyniad yn ardderchog, gyda defnydd gofalus o liw.



Rwyt wedi cynnwys nifer fawr o sylwadau am dy waith. Mae nifer fechan o gamgymeriadau yma. Mae'r adolygu yn fanwl. Rwyt wedi cynnwys sawl enghraifft, ond nid oes digon o amrywiaeth. Mae'r cyflwyniad yn dda ac wedi ei osod allan yn glir.



Rwyt wedi cynnwys sylwadau am dy waith, ond nid llawer. Mae'r taflenni'n dangos ychydig yn ormod o gamgymeriadau. Nid oes digon o enghreifftiau yn cael eu rhoi. Does dim trefn ar yr adolygu, ac nid yw lliw yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol.



Nid oes sylwadau am y gwaith yma. Mae'r adolygu naill ai heb ei orffen neu'n cynnwys gormod o gamgymeriadau. Nid yw'r taflenni'n dangos digon o enghreifftiau perthnasol. Mae'r cyflwyniad yn wael; nid wyt wedi ystyried beth yw'r ffordd orau o osod y gwaith allan.



@mathe/mateg

Yr Adran Fathemateg

[www.mathemateg.com](http://www.mathemateg.com)



@mathemateg



/mathscreuddyn



Moodle Mobile

YouTube Adolygu Mathemateg



# CROESO I YSGOL Y CREUDDYN

Y Llyfrgell (Lluosrifau). Y Neuadd (Polygonau, Llinellau Arbennig).  
 Y Neuadd chwaraeon (Odrifau ac Eilrifau. Rhifau Sgwâr.)  
 Rhifau Ciwb). Amserlen yr ysgol (Y Cloc. Y Calendr. Amserlenni).  
 Y Ffreutur (Cymesuredd). Yr Eisteddfod (Cymesuredd Cylchdro.  
 Trawsfudo efo fector colofn).

Cymerwch amser i ymarfer eich  
 tablau lluosri efo wfan Times Tables Rock Stars.



## Lluosrifau

- ② Mae'r rhif yn eilrif, felly'n gorffen efo 2, 4, 6, 8 neu 0.
- ③ Mae swm y digidau'n lluosrif 3. E.e. 582:  $5+8+2=15$  ✓
- ④ Mae hanner y rhif yn eilrif. E.e. 106:  $106 \div 2 = 53$  ✗
- ⑤ Mae'r rhif yn gorffen efo 5 neu 0. E.e. 385 ✓ 503 ✗
- ⑥ Mae hanner y rhif yn lluosrif 3. E.e. 54:  $54 \div 2 = 27$ .  $2+7=9$  ✓
- ⑦ Nid oes ffordd gyflym o benderfynu os yw rhif yn lluosrif 7.
- ⑧ Hanner'r rhif dwywaith a gorffen efo eilrif. E.e. 400:  $400 \div 2 = 200$   
 $200 \div 2 = 100$  ✓
- ⑨ Mae swm y digidau'n lluosrif 9.
- ⑩ Mae'r rhif yn gorffen efo 0. E.e. 3050 ✓ 2003 ✗ 124760 ✓

Yr enw ar siâp caeedig sy'n defnyddio llinellau syth yn  
 unig yw polygon. Mae polygon yn rheolaidd os yw hyd  
 ei ochrau i gyd yn hafal a maint ei onglau  
 hefyd i gyd yn hafal. Os nad yw polygon  
 yn rheolaidd, yna mae'n afreolaidd.

## Polygonau

Niferyrochrau	Enw'r polygon
3	Triangl
4	Pedrochr
5	Pentagon
6	Hexagon
7	Heptagon
8	Octagon
9	Nonagon
10	Decagon



Yr Eilrifau 2, 4, 6, 8, 10, 12, 14, 16, 18, 20, 22, 24, ...

Yr Odwifau 1, 3, 5, 7, 9, 11, 13, 15, 17, 19, 21, 23, ...

Rhifau Sgwâr

5<sup>2</sup> = 25  
(Pump wedi i' squario)

1<sup>2</sup> = 1x1    2<sup>2</sup> = 2x2    3<sup>2</sup> = 3x3    4<sup>2</sup> = 4x4    5<sup>2</sup> = 5x5

6<sup>2</sup> = 6x6 = 36    7<sup>2</sup> = 7x7 = 49    8<sup>2</sup> = 8x8 = 64    9<sup>2</sup> = 9x9 = 81    10<sup>2</sup> = 10x10 = 100    11<sup>2</sup> = 11x11 = 121

Rhifau Ciwb (un wedi i' ciwbio)


1<sup>3</sup> = 1x1x1 = 1    2<sup>3</sup> = 2x2x2 = 4x2 = 8    3<sup>3</sup> = 3x3x3 = 9x3 = 27    4<sup>3</sup> = 4x4x4 = 16x4 = 64

5<sup>3</sup> = 5x5x5 = 25x5 = 125    6<sup>3</sup> = 6x6x6 = 36x6 = 216    7<sup>3</sup> = 7x7x7 = 49x7 = 343    8<sup>3</sup> = 8x8x8 = 64x8 = 512    9<sup>3</sup> = 9x9x9 = 81x9 = 729    10<sup>3</sup> = 10x10x10 = 100x10 = 1,000

Argyfrifiannell, defnyddiwch y botwm  $x^2$  i' sgwario a  $x^3$  i' giwbio.

Y Cloc 12 awr a'r Cloc 24 awr    Maer cloc 24 awr yn rhedeg o 00:00 i 23:59. Mae'r amseroedd 00:00 i 11:59 yn amseroedd a.m., ac mae'r amseroedd 12:00 i 23:59 yn amseroedd p.m.

E.e. 14:32 → 2:32pm    00:45    12:45am




Darlun cloc analog:  
Y bys bach yw'r bys oriau  
Y bys mawr yw'r bys munudau.  
(Hanner awr wedi tri?)    10:35 'Pum munud ar ugain i un ar ddeg yn y bore?'

E Ebrill, Mehefin, Medi a Thachwedd - Rhod trideg diwrnod, oll yn unwedd - Rhod i' gweddhill trideg un - ond i' chweffror bach ei hun - Rhod dau ddeg wyth i' hun sydd raid - Ac un dros ben ar flwyddyn raid.

Post Meridiem  
'ar ôl hanner dydd

Anbe Meridiem  
'cyn canol dydd'



Blwyddyn Naid

CHWEFROR  
**29**

Mae yna flwyddyn naid bob pedair blynedd.  
Mae 366 o ddiwrnodau mewn blwyddyn naid - un yn ychwanegol i'r arfer (ar Chwefror 29ain).  
Mae 4 yn ffactor o bob blwyddyn naid.

$$4 \overline{) 14892}$$
 Gweddill 0 felly mi oedd 1956 yn flwyddyn naid.  

$$4 \overline{) 11882}$$
 Gweddill 2 felly nid oedd 1862 yn flwyddyn naid.




Amser

Mae 60 eiliad mewn munud. Mae 60 munud mewn awr  
Mae 24 awr mewn diwrnod. Mae 7 diwrnod mewn wythnos.  
Mae 365 diwrnod mewn blwyddyn arferol. Mae tua 52 wythnos mewn blwyddyn. Mae 100 o flynyddoedd mewn canrif.

$$\begin{array}{r} 52 \\ \times 7 \\ \hline 364 \end{array}$$

Llinellau Cymesuredd

Mae llinell cymesuredd, neu llinell adlewyrchiad, neu llinell ddrych, yn dangos lle gellid rhoi drych ar siâp, a cedrych i mewn iddo i weld yr un siâp.




Tywylwch ymfer lleiaf o sgwariau fel bod y llinell doredig yn llinell cymesuredd.

Cwblhewch y siâp fel bod y llinell AB yn llinell cymesuredd.

Cymesuredd Cylchdro

Mae gansïâp gymesuredd cylchdro os ydych chi dod i ffitio arno; hun fwy nag unwaith wrth iddo wneud broad cyfan. Trefn y cymesuredd cylchdro yw'r nifer o weithiau mae siâp yn dod i ffitio arno; hun wrth iddo wneud broad cyfan. Nid oes cymesuredd cylchdro gan siapiau sy'n ffitio amynt eu hunain unwaith yn unig.



# Trawsfudiadau


Rydym yn defnyddio trawsfudiad os ydym eisiau symud siâp. Mae'n bosib ysgrifennu trawsfudiad mewn geiriau neu fel factor colofn.


Enghraifft mewn geiriau: 'Trawsfudwch y siâp A 3 uned i'r dde a 2 uned i lawr'. Enghraifft mewn factor colofn: 'Trawsfudwch y siâp A gan ddefnyddio'r factor colofn  $\begin{pmatrix} -5 \\ 3 \end{pmatrix}$ ' → Mae'r -5 yn golygu symud y siâp 5 uned i'r chwith.


TOP: chwith/Dde  
GWYBODAETH: Ffyn/Lawr


Mae'r 3 yn golygu symud y siâp 3 uned i ffyn


Trawsfudwch y siapiau canlynol gan ddefnyddio'r factor colofn.


(a) 

(b) 


(c) 


(ch) 


(d) 

(dd) 

Ysgrifennwch y factor colofn sy'n trawsfudo'r siâp A i'r siâp B yn y diagramau isod.

(a) 

(b) 

(c) 


## Arnodau Adolygu

Mae'r prawf yn cymryd 45 munud ac yn cynnwys 50 o farciau.

- Diagnostic Questions: 25 cwestiwn adolygu
- YouTube: 15 fideo adolygu
- Y pecyn gwaith
- Llyfr gwaith
- Anefan yr ysgol: Kaflenni gwaith, cyflwyniadau PowerPoint, Eaflen Fyfyrio.


# CYFLWYNO OONGLAU


Mathau o onglau. Mesur onglau. Llunio onglau.  
 Cyfrifo onglau. Onglau mewn triongl. OFFER!  
onglydd  
+ Cwmpas

Troadau 

Chwarter broad yn glocwedd 

Trichwarter broad yn wrthglocwedd yn erbyn cyfeiriad y cloc.


Mathau o onglau 


Mae onglau yn mesur broad ac yn cael eu rhoi mewn graddau. 


Ongl Lem: unrhyw ongl sydd rhwng  $0^\circ$  a  $90^\circ$ .


Ongl Sgwâr: ongl sydd yn  $90^\circ$ .



Ongl Aflem: unrhyw ongl sydd rhwng  $90^\circ$  a  $180^\circ$ .


Llinell Syth: ongl sydd yn  $180^\circ$ . 


Ongl Atblyg: unrhyw ongl sydd rhwng  $180^\circ$  a  $360^\circ$ . 


Troad Cyfan: ongl sydd yn  $360^\circ$ . 


Enwi onglau  
 Angen defnyddio 3 llythyren.  
  
 ←  $\hat{A}BC$  neu  $\hat{C}BA$   
 K  $\hat{A}BC$  atblyg neu  $\hat{C}BA$  atblyg

Mesur onglau   
 Defnyddiwch eich onglydd i fesur yr onglau uchod. 

Llunio onglau efo Cwmpas   
 Gwyliwch fideo 037 ar YouTube i weld sut i wneud yr onglau yma.


  
 Gwyliwch fideo 037 ar YouTube i weld sut i wneud yr onglau yma.

  
 Itanenu  
 Ar ôl cychuym, peidiwch â newid hyd eich cwmpas!

  
 Itanenu  
 Cofiwch fesurefo onglydd ar ôl gorffen i wirio maint yr ongl.


# Cyfrifo Onglau

Mae'r onglau o amgylch pwynt yn adio i roi cyfanswm  $360^\circ$ .




70	Adio'r onglau rydym yn gwybod	360	Tynnu allan o $360^\circ$ i ffeindio x
+ 75		- 230	
+ 85		<u>130</u>	
<u>230</u>			
		<u><u>x = 130^\circ</u></u>	

Bob tro mae dwy linell syth yn croestorri, mae pedair ongl yn cael eu ffurfio o amgylch fertig. Mae'r onglau sydd gyferbyn â'i gilydd yn hafal. Mae'r rhain yn cael eu galw'n onglau croesfertig.




<u>a = 35^\circ</u>	70	Tynnu allan o $180^\circ$ i ffeindio b
Conglau croesfertig)	180	
	- 35	
	<u>145</u>	
	<u>b = 145^\circ</u>	Conglau croesfertig)
		<u>c = 145^\circ</u>

Mae ongl allanol briongl yn hafal i swm y ddwy ongl fewnol gyferbyn.




Yr ongl ar gyfer hanner broad yw  $180^\circ$ , felly cyfanswm yr onglau ar unrhyw linell syth yw  $180^\circ$ .




29	Adio'r onglau rydym yn gwybod	180	Tynnu allan o $180^\circ$ i ffeindio y
+ 90		- 119	
<u>119</u>		<u>61</u>	
		<u><u>y = 61^\circ</u></u>	

Mae cyfanswm yr onglau mewn briongl bob amser yn  $180^\circ$ .



... a'u gosod mewn llinell syth.




32	Adio'r onglau rydym yn gwybod	180	Tynnu allan o $180^\circ$ i ffeindio z
+ 89		- 121	
<u>121</u>		<u>59</u>	
		<u><u>z = 59^\circ</u></u>	


# Mathau o Drionglau

Mae gan driongl hafalochr tair ochr hafal a thair ongl hafal

Mae gan driongl ongl sgwâr un ongl sy'n ongl sgwâr, neu'n  $90^\circ$   
Gall triongl ongl sgwâr fod yn anghyfochrog neu'n isosgeles.




Mae gan driongl isosgeles dwy ochr hafal a dwy ongl hafal.




Nid oes gan driongl anghyfochrog unrhyw ochrau hafal nag unrhyw onglau hafal.

Os yw'n isosgeles, yr onglau yw  $75^\circ, 75^\circ, 90^\circ$


## Llunio Trionglau



$AB = 5\text{cm}$ ,  $\hat{BAC} = 40^\circ$ ,  $\hat{ACB} = 60^\circ$




$AB = 4.8\text{cm}$ ,  $\hat{BAC} = 27^\circ$ ,  $\hat{ACB} = 79^\circ$




$AB = 6\text{cm}$ ,  $BC = 8\text{cm}$ ,  $\hat{ACB} = 64^\circ$

Os ydychyn cael ochr a dwy o'r onglau, neu dwy ochr a'r ongl sy'n cysylltu'r ddwy ochr, defnyddiwrch bren mesur ag onglydd i lunio'r triongl.


Os ydychyn cael tair ochr y triongl, defnyddiwrch bren mesur a chwmpas i lunio'r triongl.



$AB = 4\text{cm}$ ,  $AC = 4\text{cm}$ ,  $BC = 4\text{cm}$



$AB = 5.7\text{cm}$ ,  $AC = 9.2\text{cm}$ ,  $BC = 8.1\text{cm}$



$AB = 3.5\text{cm}$ ,  $AC = 6\text{cm}$ ,  $BC = 8\text{cm}$

# Cwestiynau Adolygu

Ateb: Hanner brood yn gloc wedd.

**TUD 3**


Pa fath o droad yw hwn?



**TUD 4**


Pa fath o onglau yw'r rhain? (a)  $140^\circ$  (b)  $14^\circ$  (c)  $280^\circ$   
 Ateb: (a) ongl aflem. (b) ongl lem. (c) ongl atblyg.

Enwch yr onglau yn y diagram  
 Ateb: (a)  $\hat{A}BC$  (b)  $\hat{A}CB$



**TUD 7**

Mesurwch yr onglau canlynol a dywedwch pa fath o onglau gdynt.



Ateb: (a)  $30^\circ$ , ongl lem (b)  $155^\circ$ , ongl aflem (c)  $324^\circ$ , ongl atblyg.









**TUD 13**

Lliniwrchongl  $25^\circ$ .



**TUD 17**

Darganfyddwch faint yr onglau sydd wedi'u marcio (Nid yw'r diagramau wedi'u llunio'n ddiwrth raddfa).



**TUD 22**

Eglurwch os yw'n bosib llunio triongl efo dwy ongl aflem. Nid yw'n bosib llunio triongl efo dwy ongl aflem. Byddai cyfanswm dwy ongl aflem yn gorfod bod yn fwy na  $180^\circ$ . Ond gna ni fyddai'n bosib cael trydydd ongl yn y triongl gan fod cyfanswm yr onglau mewn triongl yn  $180^\circ$ .

# TRIN DATA AC YSTADEGAETH

Y Cymedr. Yr Amrediad. Siartiau Bar. Cymedr data wedi'i grwpio. Siartiau Cylch.

↙ y cymedr yw'r gwerth cymedrig.

Y Cymedr  
Mae'r cymedr yn gyfartaledd.

Er mwyn darganfod cymedr set o ddata:  
(1) Darganfyddwch gyfanswm yr holl werthoedd data.  
(2) Rhannwch efo'r nifer o werthoedd data.

E.e. beth yw cymedr y gwerthoedd 1, 3, 2, 5, 2, 10, 8, 7?  
 $1 + 3 + 2 + 5 + 2 + 10 + 8 + 7 = 38$ .  $38 \div 8 = 4.75$

Cyfrifo'r Cymedr o Dabl

weithiau, pan fydd gennym lawer o ddata, mae'n haws ei gyflwyno ar ffurf tabl.

E.e.	Maint esgid	Nifer o blant	Lluosi
Mae'r tabl yn dangos maint esgid dysgwyr 7R.	3	4	$3 \times 4 = 12$
	4	5	$4 \times 5 = 20$
	5	10	$5 \times 10 = 50$
	6	9	$6 \times 9 = 54$
	7	2	$7 \times 2 = 14$
		<u>30</u>	<u>150</u>

(a) ychwanegu colofn newydd 'lluosi' i'r tabl. Lluosi'r maint esgid efo'r amlder/nifer o blant.  
(b) Adio'r nifer o blant (30) a'r golofn lluosu (150)  
(c) Y cymedr yw  $150 \div 30 = 5$

Cymharu dau ddsraniad

Gallwn ddefnyddio'r cymedr i gymharu dau set o ddata.  
E.e. mae'r athro addysg gorfforol yn mesur, mewn eiliadau, yr amser y mae aelodau'r tîm pêl-droed a'r tîm rygbi yn ei gymryd i redeg 100m.

Y tîm pêl-droed: 13, 14, 15, 11, 14, 12, 12, 13, 11, 13, 14.  
Y tîm rygbi: 12, 13, 14, 11, 12, 14, 15, 13, 15, 14, 11, 16, 14, 15, 13.  
Cymedr y tîm pêl-droed:  $142 \div 11 = 12.90$   
Cymedr y tîm rygbi:  $202 \div 15 = 13.46$

Mae cymedr y tîm pêl-droed yn llai felly'r tîm pêl-droed yw'r cyflymaf (ar gyfartaledd) dros 100m.

Yr Amrediad

Mae'r amrediad yn un mesur o wasgariad. I gyfrifo'r amrediad ffeindiwch y gwahaniaeth rhwng y reitem data mwyaf a'r eitem data lleiaf. Fel arfer, mae hyn yn golygu tynnu'r rhif lleiaf o'r rhif mwyaf.

Mae gan set o ddata wasgariad isel os yw'r gwerthoedd data gilydd. Gallwch adibynnu ar rywbeth sydd efo' gwasgariad/amrediad isel.

E.e. beth yw amrediad y gwerthoedd 1, 3, 2, 5, 2, 10, 8, 7?  
Y gwerth mwyaf yw 10. Y gwerth lleiaf yw 1. Os yw pob eitem mewn set ddata yn cynyddu'r un maint, yna mae'r amrediad yn aros yr un fath.  
Yr amrediad yw  $10 - 1 = 9$ .

# Mathau o Ddata

Data Ansoddol

Data Meintiol

Yn delio efo disgrifiadau.  
Data sy'n gallu cael ei arsylwi ond nid ei fesur. E.e. dull teithio i'r ysgol, lliw llygad, hoff anifail.

Yn delio efo rhifau.  
Data sy'n gallu cael ei fesur. E.e. Ealdra person, nifer o frodyr.

## Siartiau Bar

Rydym yn llunio siart bar ar gyfer • Data Ansoddol

• Data Meintiol Arwahanol hebe ei grupio.

Mae angen cynnwys BWLCH rhwng pob bar mewn siart bar.

Data Arwahanol

Yn cymryd gwerthoedd penodol yn unig. E.e. maint esgid, cyflog nyrs, nifer y caneuon ar album.

Data Di-dor

Yn cymryd unrhyw werth o fewn amrediad penodol. E.e. hyd braed, y tymheredd am 3:00pm, yr amser mae'n ei gymryd i seiclo o Rhyd i Abergelle.

## Enghraifft

Gofynnodd Dylan sut y cyrhaeddodd myfyrwyr dosbarth 7Dd yr ysgol un bore. Dyma'r canlyniadau:


Cerdded 5

Bws 12


Car 4

Beic 1

Lluniodd Dylan siart bar ar gyfer y data.



## Diagramau Amllder



Rydym yn llunio diagram amllder ar gyfer • Data Meintiol Arwahanol wedi'i grupio • Data Meintiol Di-dor.

NID OES BYLCHAU mewn diagram amllder, ond rhaid i led pob bar fod yn hafal.

Grwpio Data Mae'r data hwn yn

rhoi pwysau llyfrau ar silff yn y llyfrgell, mewn gramau.


742, 241, 332, 478, 1245, 832, 746, 291, 160, 635, 1042, 368, 760, 590, 748, 800, 564, 1340, 824, 683, 174, 960, 236, 746, 328, 387, 823, 894.

Gallwn ffurfio'r tabl amllder isodder mewn grwpio'r data.

Pwysau (p gram)	Marciau Rhifo	Amllder
$0 \leq p < 200$		2
$200 \leq p < 400$		7
$400 \leq p < 600$		3
$600 \leq p < 800$		7
$800 \leq p < 1000$		6
$1000 \leq p < 1200$		1
$1200 \leq p < 1400$		2

Mae marciau rhifo yn dod fesul 5.

Diagram Amllder i ddangos pwysau llyfrau ar silff yn y llyfrgell



↳ Yn pwysu rhwng 1200g a 1400g, yn cynnwys 1200g ond yn llai na 1400g.

Cymedr data wedi grwpio

Ystyriwch y data canlyniol ar gyfer y nifer o albymau cerddoriaeth y mae IOR wedi eu prynu yn ystod mis Mai.

Nifer yr albymau	Amllder
0-4	11
5-9	8
10-14	5
15-19	1

Heb y data gwreiddiol (cyn ei grwpio), mae'n amhosib cyfrif yr cymedr yn union gywir. Cymerwch, er enghraifft, mes olaf y tabl. Oes rhywun wedi prynu 15 albwm, neu 16, neu 17, neu 18, neu 19? Nid ydym yn gwybod, felly'r gorau gallun wneud yw cyfrifo amcangyfrif ar gyfer y cymedr. I wneud hyn, rydym yn di llyn y dull isod.

ca) Addasu'r tabl.

Nifer yr albymau	Canolbwynt	Amllder	Lluosi
0-4	2	11	$2 \times 11 = 22$
5-9	7	8	$7 \times 8 = 56$
10-14	12	5	$12 \times 5 = 60$
15-19	17	1	$17 \times 1 = 17$
		<u>25</u>	<u>155</u>

Canolbwynt y dosbarth 15-19 yw'r rhif yng nghanol y rhifau 15, 16, 17, 18, 19. Os nad gdech yn gallu gweld hyn, byddai'n bosib adio'r ddau rif sy'n ffurfio'r dosbarth ac yna hanneru.

Yn yr achos yma:  
 $15 + 19 = 34$   
 $34 \div 2 = 17$   
 Canolbwynt y dosbarth yw 17.

(b) Ffeindio cyfanswm y colofnau amllder a lluosï.

(c) Rhannwch gyfanswm y golofn 'lluosï' efo cyfanswm y golofn 'amlder':  
 $155 \div 25 = 6.2$ . Hun gywir amcangyfrif o'r cymedr ar gyfer y data yma.

Rydym yn defnyddio canolbwynt bob dosbarth i gynrychioli bob eitem data. Mewn gwirionedd, ni fydd pob eitem data yn hafal i'r canolbwynt, ond dyma'r ffordd mwyaf teg o gyfrif yr amcangyfrif ar gyfer y cymedr.

155 yw ein amcangyfrif ar gyfer cyfanswm y gwerthoedd data. 25 yw'r nifer o werthoedd data.

## Siartiau Cylch

Enghraifft: Lluniwch siart cylch ar gyfer y data canlynol.

Y bwydydd a cafodd eu bwyta mewn gwesty.

Cig eidion 7

Cig oen 26

Cyw iâr 18

Llysieuol 5

Pysgodyn 14

Hwyaden 2

Mae  $7 + 26 + 18 + 5$

$+ 14 + 2 = 72$  person

i gyd. Mae pob

person yn cael  $360 \div 72$

$= 5^\circ$  o'r cylch.

Cig eidion  $7 \times 5^\circ = 35^\circ$

Cig oen  $26 \times 5^\circ = 130^\circ$

Cyw iâr  $18 \times 5^\circ = 90^\circ$

Llysieuol  $5 \times 5^\circ = 25^\circ$


Pysgodyn  $14 \times 5^\circ = 70^\circ$

Hwyaden  $2 \times 5^\circ = 10^\circ$

$360^\circ$

Adio'r onglau:  
gwirio bod  
y cyfanswm  
yn  $360^\circ$  ✓

## Siart Cylch i ddangos y bwydydd a cafodd eu bwyta mewn gwesty



↑ Cofio ychwanegir teitl

← Llunio'r cylch efo cumpas

Labeli'r Sectorau efor matho fwyd.

↑ Mesur maint y sectorau ganddefnyddio onglydd

Nid oes rhaid llunio'r sector olaf ond cofiwch ei fesur efo onglydd (yn fan hyn dylai fod yn  $10^\circ$ )

## Dehongli Siartiau Cylch

Mae'r siart cylch yn dangos gwerth maethol (nutritional value) pecyn o greision sy'n pwyso 36g.


- (i) Faint o'r creision sy'n garbohydrad?
- (ii) Faint o'r creision sy'n fraster?  
(Defnyddiwch eich onglydd i helpu.)
- (iii) Faint o'r creision sy'n brotein?

(i) Gwelwn fod  $\frac{1}{2}$  o'r siart cylch yn garbohydrad. Felly mae  $36 \div 2 = 18g$  o'r creision yn garbohydrad.

(ii) Efo onglydd, mesurwn maint y sector braster fel  $120^\circ$ . Felly mae  $\frac{120}{360} \times 36 = 12g$  o'r creision yn fraster.

(iii) Itun yw'r ffracsiwn o'r cylch cyfan ( $360^\circ$ ) sy'n fraster.  $\frac{30}{360} \times 36 = 3g$  o'r creision sy'n brotein. Cymerwch ofal wrth

## Gwerth maethol pecyn o greision 36g



Gymharu dau siart cylch. Nid yw sector mwy mewn un siart cylch yn dweud wrthy ch yn sicr bod mwy o fob) wedi lleisio rhyw farn.  
 DA: 25 CWESTIWN YOUTUBE: 12 FIDEO

# CYFLWYNO CANRANNAU

Paratoi (Degolion). Cyfrifo canrannau. Dofnyddio canrannau %

Gwerth Lle Rydym yn ysgrifennu rhifau yn y system ddegol. Mae gwerth lle pob digid ddeg gwaith yn fwy na gwerth lle'r digid sydd union i'r dde.

Ysgrifennwch y rhifau canlynol ar y siart gwerth lle isod.

- (a) 47289                      (b) 40.25                      (c) 8344903                      (ch) 91837.234                      (d) 0.208  
 (dd) 139847431986                      (e) 30003.001                      (f) 300                      (ff) 31298129381398                      (g) 200904.435

	Triliynau			Biliynau			Miliynau			Miloedd			Pwynt Degol	Degfedau	Canfedau	Milfedau
	Cannoedd	Degau	Unedau	Cannoedd	Degau	Unedau	Cannoedd	Degau	Unedau	Cannoedd	Degau	Unedau				
(a)										4	7	2	8	9		
(b)													4	0	.	2 5
(c)							8	3	4	4	9	0	3	3		
(ch)										9	1	8	3	7	.	2 3 4
(d)													0	.	2	0 8
(dd)				1	3	9	8	4	7	4	3	1	9	8	6	
(e)										3	0	0	0	3	.	0 0 1
(f)													3	0	0	
(ff)	3	1		2	9	8	1	2	9	3	8	1	3	9	8	
(g)										2	0	0	9	0	4	.

- Mewn geiriau: (a) Pedwar deg saith mil a dau gant wyth deg naw  
 (b) Pedwar deg pwynt dau pump, neu pedwar deg a dau ddeg pum canfed  
 (c) Tri deg mil a thri pwynt dim dimun, neu tri deg mil a thri, ag un milfed  
 (ff) Tri deg un triliun, dau gant nawdeg wyth biliun, un cant dau ddeg naw miliun, tri chant wyth deg un mil, a tri chant nawdeg wyth.

Yn y siart gwerth lle uchod, sylwch bod rhai colofnau yn las a rhai yn binc. Mae'r colofnau glas yn cynrychioli rhifau gwrywaidd, e.e. 'pedwar deg' ✓ nid 'pedair deg' X. Mae'r colofnau pinc yn cynrychioli rhifau benywaidd, e.e. 'pedair mil' ✓ nid 'pedwar mil' X.

Rhannu a Lluosio fo Averaau 10

$34 \times 10 = 340$	$23.56 \times 10 = 235.6$	$2.3 \times 10 = 23$
$280 \times 100 = 28,000$	$6.4 \times 100 = 640$	$0.0345 \times 100 = 3.45$
$82 \times 1000 = 82,000$	$2.3 \times 1000 = 2,300$	$0.0983 \times 1000 = 98.3$
$520 \div 10 = 52$	$2 \div 10 = 0.2$	$0.83 \div 10 = 0.083$
$745 \div 100 = 7.45$	$48,000 \div 100 = 480$	$0.0005 \div 100 = 0.000005$
$460,000 \div 1,000 = 460$	$5.82 \div 1000 = 0.00582$	$8.5 \div 1000 = 0.0085$

# Cyfrifo efo Degolion

YOUTUBE 13 Fideo Adolygu

(a) Lluosi degolyn efo cyfanrif llai na 10

E.e.  $75.82 \times 6$

(b) Adio Degolion

E.e.  $24.52 + 387.963$

(c) Tynnu Degolion

E.e.  $53.8 - 1.46$

$$\begin{array}{r} 75.82 \\ \times \quad 6 \\ \hline 454.92 \\ \hline \end{array}$$

Cario ymlaen digidau

$$\begin{array}{r} 24.52 \\ + 387.963 \\ \hline 412.483 \\ \hline \end{array}$$

Rhaid cael y pwynt degol mewn colofn

$$\begin{array}{r} 53.80 \\ - 1.46 \\ \hline 52.34 \\ \hline \end{array}$$

Ychwanegu sero yn fan hyn

cychwyn or dde, gweithio i'r chwith. Dangos y colofnau yn glir.

# Cyfrifo Canrannau

Mae canran yn golygu ffracsiwn a roddir allan o 100. E.e. mae 42% yn gywerth â  $\frac{42}{100}$ , neu 42 allan o 100.

Canran	Ffracsiwn	Er mwy cyfrifor ganran yma
50%	$\frac{1}{2}$ , gan fod 50% yn ffitio i mewn i 100% dwywaith	Rhaid haneru, neu rannu efo 2.
25%	$\frac{1}{4}$ , gan fod 25% yn ffitio i mewn i 100% pedair gwaith	Rhaid rhannu efo 4, neu ffeindio chwarter or rhif.
10%	$\frac{1}{10}$ , gan fod 10% yn ffitio i mewn i 100% deg gwaith	Mae angen rhannu efo 10, neu ffeindio degfed or rhif.
20%	$\frac{1}{5}$ , gan fod 20% yn ffitio i mewn i 100% pum gwaith	Rhaid rhannu efo 5, neu ffeindio pumed or rhif.
5%	$\frac{1}{20}$ , gan fod 5% yn ffitio i mewn i 100% ugain gwaith	Rhaid rhannu efo 20, neu ffeindio ugeinfed or rhif.
1%	$\frac{1}{100}$ , gan fod 1% yn ffitio i mewn i 100% can gwaith	Mae angen rhannu efo 100, neu ffeindio canfed or rhif.

Mae 50% o 80 yn  $80 \div 2 = 40$

Mae 25% o 24 yn  $24 \div 4 = 6$

Mae 10% o 70 yn  $70 \div 10 = 7$

Mae 20% o 30 yn  $30 \div 5 = 6$

Mae 5% o 80 yn  $80 \div 20 = 4$

Mae 1% o 600 yn

$600 \div 100 = 6$

# Cyfrifo Canran Heb Gyfrifiannell

Er mwyn cyfrifo 10% o rif, rhannwch y rhif efo 10.

- Mae 10% o £38 yn  $£38 \div 10 = £3.80$ .
- Mae 10% o 170 yn  $170 \div 10 = 17$
- Mae 10% o \$78.50 yn  $$78.50 \div 10 = $7.85$ .

Rydym wedi bod yn ymarfer gwneud hyn yn gynharach. Ma'rgwerth lle'n newid, ond nid yw'r digidau'n newid.

Er mwyn cyfrifo 1% o rif, rhannwch y rhif efo 100. Gallwch wneud hyn trwy rannu'r rhif efo 10 dwywaith.

- Mae 1% o £38 yn  $£38 \div 100 = £0.38$ .
- Dull amgen:  $£38 \div 10 = £3.80$ ,  $£3.80 \div 10 = £0.38$
- Mae 1% o 260 yn  $260 \div 100 = 2.6$ .
- Dull amgen:  $260 \div 10 = 26$ ,  $26 \div 10 = 2.6$
- Mae 1% o \$298 yn  $$298 \div 100 = $2.98$ .
- Dull amgen:  $$298 \div 10 = $29.80$ ,  $$29.80 \div 10 = $2.98$ .

Yn y dull amgen, rydym yn ffeindio 10% o'r rhifi gychwyn, ac yn a'n ffeindio 1% o'r rhif.

Enghraifft: Beth yw 37% o £85?

## HEB GYFRIFIANNELL

- (a) Cyfrifo 10% a g 1% o £85.
- 10%  $£85 \div 10 = £8.50$
  - 1%  $£8.50 \div 10 = £0.85$

(b) Cyfrifo 30% a 7% o £85

30%  $£85$   $7%$

$$\begin{array}{r} 8.50 \\ \times 3 \\ \hline 25.50 \end{array}$$

$$\begin{array}{r} 0.85 \\ \times 7 \\ \hline 5.95 \end{array}$$

$£25.50 + £5.95 = £31.45$

(c) Cyfrifo 37% o £85

$$\begin{array}{r} 25.50 \\ + 5.95 \\ \hline 31.45 \end{array}$$

Adio 30% a 7% at eigi llydd i gael 37%

$7% = 1% \times 7$

Enghraifft: Beth yw 46% o £168?

## HEB GYFRIFIANNELL

- (a) Cyfrifo 10% a g 1% o £168.
- 10%  $£168 \div 10 = £16.80$
  - 1%  $£16.80 \div 10 = £1.68$

(b) Cyfrifo 40% a 6% o £168.

40%  $£168$   $6%$

$$\begin{array}{r} 16.80 \\ \times 4 \\ \hline 67.20 \end{array}$$

$$\begin{array}{r} 1.68 \\ \times 6 \\ \hline 10.08 \end{array}$$

$£67.20 + £10.08 = £77.28$

(c) Cyfrifo 46% o £168

$$\begin{array}{r} 67.20 \\ + 10.08 \\ \hline 77.28 \end{array}$$

Adio 40% a 6% at eigi llydd i gael 46%.

$6% = 1% \times 6$

Botymau cyfrifiannellau CASIO

HEFO Cyfrifiannell, mae 37% o £85 yn  $\boxed{8} \boxed{5} \times \boxed{3} \boxed{7} \text{SHIFT} \boxed{\%} = \boxed{31.45}$

mae 46% o £168 yn  $\boxed{1} \boxed{6} \boxed{8} \times \boxed{4} \boxed{6} \text{SHIFT} \boxed{\%} = \boxed{77.28}$

Dull amgen o ffeindio 37%: Tynnu 3% o 40%. Dull amgen o ffeindio 46%: Tynnu 4% o 50%. Dull amgen o ddefnyddio'r cyfrifiannell: Newid y ganran i ddegolyn (trwy rannu efo 100, ee.  $37% = 0.37$ , a lluosu efo'r degolyn.

# Defnyddio Canrannau

## Elw a Cholled

Mae Elw (profit) a cholled (loss) yn bwysig ym myd busnes. Wrth wneud elw rydym yn derbyn mwya o arian, ac wrth wneud colled rydym yn colli arian.

### GEIRFA

- 'Comisiwn' Canran o bris sy'n cael ei dalu, ee. i weithiwr.
- 'Disgownt' Rydym yn arbed rhywfaint o arian oddi wrth y pris gwreiddiol
- 'Blaendal' Rydym yn talu rhan o'r arian ar y cychwyn, ee. wrth brynu car.

E.e. mae Megan yn newid £400 i ewros. Mae'r banc yn hawlio 2% o gomisiwn. Faint yw'r comisiwn? Ateb:  $£400 \times 2\% = \underline{\underline{£8}}$

## Llog Syml

Wrth fenthyg ariangan fanc, mae'r banc yn codi llog arnoch (interest). Rhaid talu'r llog yma i'r banc ar ben yr arian rydych wedi'i fenthyg. Ar y llaw arall, os ydych yn buddsoddi arian mewn banc (invest), sef rhoi arian yn y banc i gadw, mae'r banc yn talu llog i chi.

Bydd math arall o log (cadlog) yn cael ei gysbyried ym mlynedd y 9.

E.e. Mae Rheinalt yn benthyg £12,000 gan fanc Barclays ar gyfradd llog syml 3% y flnyddyn. Mae Rheinalt eisiau talu'r holl arian yn ôl ar ôl pedair blynedd. Faint o arian sydd raid i Rheinalt dalu'r ôl ar ôl pedair blynedd?

Ateb: (a) Cyfrifwch 3% o £12,000 (b) Lluosir £360 efo'r nifero flnyddedd, 4



$$\begin{aligned} &£12,000 \div 10 = £1,200 \\ &£1,200 \div 10 = £120 \\ &£120 \times 3 = £360 \end{aligned}$$

$$\begin{array}{r} 360 \\ \times 4 \\ \hline £1440 \end{array}$$

(c) Adio'r llog at y benthygiad.

$$\begin{array}{r} 12000 \\ + 1440 \\ \hline \underline{\underline{£13440}} \end{array}$$

## Cyflogau

Wrth dderbyn cyflog, nid ydych yn cael cadw pob ceiniog o'r arian mae'ch cyflogwr yn ei roi i chi. Mae pawb yn cychwyn efo cyflog crynswth (gross salary), ac yna rhaid talu pethau fel breth incwm (income tax), yswiriant gwladol (national insurance) a phensiwn (pension). Rydym yn galw'r cyflog sydd ar ôl yn cyflog clir (net salary), a dyma sy'n cyrraedd eich cyfrif banc.

E.e. Mae Elin yn derbyn cyflog crynswth £450 yr wythnos. Rhaid i Elin dalu 26% o'i chyflog fel breth incwm, yswiriant gwladol a phensiwn. Beth yw cyflog clir Elin? Ateb:  $£450 \times 26\% = £117$ .  $£450 - £117 = \underline{\underline{£333}}$  yr wythnos.

## TAW

Pan rydych yn talu am nwyddau, mae peth o'r arian yn mynd i'r llywodraeth fel breth ar beth rydych wedi'i brynu. Enwir dreth yma yw Treth ar Werth (TAW). ['Value Added Tax' yn Saesneg.]

E.e. pris teledu cyn ychwanegu TAW yw £250. Os yw cyfradd TAW yn 20%, beth yw pris y teledu ar ôl ychwanegu TAW? Ateb:  $£250 \times 20\% = £50$   
 $£250 + £50 = \underline{\underline{£300}}$


## Canran Prawf

Os yw Hari yn cael 26 allan o 30 mewn prawf, pa ganran gafodd Hari? Ateb:  $(26 \div 30) \times 100 = 87\%$ , i'r ganran agasaf.

# CYFESURYNNAU YN Y 4 PEDRANT

Y pedrant cyntaf. Y pedwar pedrant Canolbwyt Llinell. Defnyddio cyfesurynnau

Y pedrant cyntaf




Yr echelin lorweddol → yw'r echelin-x.  
Yr echelin fertigol ↑ yw'r echelin-y.  
Y Earddbwynt (origin) yw'r pwynt lle mae'r ddwy echelin yn cyfarfod.

I blotio pwynt gan ddefnyddio cyfesuryn: • Dechreuwch yn y Earddbwynt

• Symudwch ar draws yn gyntaf

• Yna symudwch i fyny

Ar gyfer y cyfesuryn (2,3), 2 yw'r cyfesuryn-x a 3 yw'r cyfesuryn-y. Os yw'r cyfesuryn-x a'r cyfesuryn-y yn bositif, yna mae'r cyfesuryn yn y pedrant cyntaf.




# Y Pedwar Pedrant

Mae'r echelin-x a'r echelin-y yn rhannu'r plân i mewn i bedwar pedrant. Maent yn cael eu rhifio wrthglocwedd.


- (2, 5) Y pedrant cyntaf
- (-2, 5) Yr ail bedrant
- (2, -5) Y pedwerydd pedrant
- (-2, -5) Y trydydd pedrant
- (0, -2) Y trydydd pedrant a'r pedwerydd pedrant
- (0, 0) Pob pedrant!

Wrth ysgrifennu cyfesuryn, cofiwch gynnwys y cromfachau! Dychmygwch ddarllen rhestr o gyfesurynnau sydd ddim yn cynnwys cromfachau...

Cyfarwyddiadau i Junior aderyn ar waedol ychubalen




- Cychwyn (-12, 5), (-14, 6), (-11, 7), (-9, 9), (-6, 10), (-3, 9), (0, 7), (5, 5), (8, 3), (15, 5), (20, 5), (10, 1), (9, -2), (4, -7), (0, -7), (-5, -5), (-10, 0), (-12, 5), (-10, 6), (-11, 7) Stop
  - Cychwyn (0, 5), (5, 3), (10, 0), (12, -2), (3, -1), (-1, 0) Stop
  - Cychwyn (-9, 6), (-8, 7), (-7, 6), (-8, 5), (-9, 6) Stop
- Lluniwch y llinellau canlynol:
- |                       |                       |
|-----------------------|-----------------------|
| (-8, -11) i (-5, -11) | (-8, -13) i (-5, -11) |
| (-6, -14) i (-5, -11) | (-1, -10) i (-5, -11) |
| (0, -7) i (-5, -11)   | (-3, -12) i (0, -12)  |
| (-3, -14) i (0, -12)  | (-1, -15) i (0, -12)  |
| (4, -11) i (0, -12)   | (4, -7) i (0, -12)    |



# Canolbwynt Llinell

Mae'n bosib defnyddio llinell syth i gysylltu unrhyw ddau gyfesuryn sy'n wahanol. Beth yw cyfesuryn canolbwynt y llinell yma?



Ystyriwch y cyfesurynnau  $(2, 3)$  a  $(7, 5)$  a ddangosir ar y dde. Gwelwn mai canolbwynt y llinell yw  $(4.5, 4)$ . Dyma sut i ffeindio'r canolbwynt heb orfod guneud llun.

- Ffeindio cymedr y cyfesurynnau-x

$$2 + 7 = 9$$

$$9 \div 2 = 4.5$$

(cymedr: Adio'r rhifau, Rhannu'r nifer o rifau)

- Ffeindio cymedr y cyfesurynnau-y

$$3 + 5 = 8$$

$$8 \div 2 = 4$$

Felly canolbwynt y llinell syth sy'n cysylltu  $(2, 3)$  efo  $(7, 5)$  yw  $(4.5, 4)$

Enghraifft: Beth yw canolbwynt y llinell syth sy'n cysylltu  $(11, 7)$  efo  $(9, 1)$ ?

$$11 + 9 = 20$$

$$20 \div 2 = 10$$

$$7 + 1 = 8$$

$$8 \div 2 = 4$$

Ateb:  $(10, 4)$ .

Er mwyn gallu gwneud hyn efo cyfesurynnau yn yr 2il, 3ydd a 4ydd pedrant, rydym angen cofio sut i....

## Adio Rhifau Negatif

$$4 + 7 = 11$$

$$-4 + 7 = 3$$

## Meddylwch am y llinellrif

$$4 - 7 = -3$$

$$-4 - 7 = -11$$

... -3 -2 -1 0 1 2 3 ...

## RHEOL

Mae adio rhif negatif yr un peth â thynnu.

E.e.  $8 + -3$   
 $= 8 - 3$   
 $= 5$

$$-5 + -2$$

$$= -5 - 2$$

$$= -7$$

$$7.5 + -1.5$$

$$= 7.5 - 1.5$$

$$= 6$$

Enghraifft: Beth yw canolbwynt y llinell syth sy'n cysylltu  $(1, -2)$  efo  $(-5, 3)$ ?

$$1 + -5$$

$$= 1 - 5$$

$$= -4$$

$$-4 \div 2$$

$$= -2$$

$$-2 + 3$$

$$= 1$$

$$1 \div 2$$

$$= 0.5$$

Ateb:  $(-2, 0.5)$

## MEODALWEDD

Gallwch ddefnyddio gwefan DESMOS i blotio cyfesurynnau.

## YOUTUBE

7 fideo addlygu ar gael.


**Ymarfer 23**

(a) Mae'r petryal ABCD yn cael ei drawsfudo gan ddefnyddio'r factor colofn  $\begin{pmatrix} -4 \\ 0 \end{pmatrix}$ . Ysgrifennwch gyfesurynnau corneli'r siâp newydd.

(b) Mae'r petryal ABCD yn cael ei drawsfudo gan ddefnyddio'r factor colofn  $\begin{pmatrix} 1 \\ -7 \end{pmatrix}$ . Ysgrifennwch gyfesurynnau corneli'r siâp newydd.

(c) Mae'r petryal ABCD yn cael ei drawsfudo fel bod ei gorneli yn symud i'r cyfesurynnau (0, 1), (1, 1), (1, 4), (0, 4). Pa factor colofn sy'n cynrychioli'r trawsfudiad yma?

(ch) Mae'r triongl EFG yn cael ei drawsfudo gan ddefnyddio'r factor colofn  $\begin{pmatrix} -3 \\ 2 \end{pmatrix}$ . Ysgrifennwch gyfesurynnau corneli'r siâp newydd.



**Ymarfer 24 (Adolygu)**


(a) Ysgrifennwch gyfesurynnau'r pwynt K.

(b) Mae'r pwynt R ar y llinell PQ. Cyfesuryn-y y pwynt R yw 1. Beth yw cyfesuryn-x y pwynt R?

(c) Beth yw cyfesurynnau canolbwynt y llinell PQ?

(ch) Mae'r siâp LMN yn cael ei drawsfudo gan ddefnyddio'r factor colofn  $\begin{pmatrix} -4 \\ -5 \end{pmatrix}$ . Ysgrifennwch gyfesurynnau corneli'r siâp newydd.

(d) Mae'r llinell PQ yn ffurfio un ochr o sgwâr. Beth allai cyfesurynnau'r ddwy gornel arall fod?



Ymarfer 23

(a) Mae'r siâp yn symud 4 uned i'r chwith. Cyfesurynnau'r corneli newydd yw  $(-2, 2), (-1, 2), (-1, 5), (-2, 5)$ .

(b) Mae'r siâp yn symud 1 uned i'r dde a 7 uned i lawr. Cyfesurynnau'r corneli newydd yw  $(3, -5), (4, -5), (4, -2), (3, -2)$ .

(c)  $\begin{pmatrix} -2 \\ -1 \end{pmatrix}$  (ch) Mae'r siâp yn symud 3 uned i'r chwith a 2 uned i fyny. Corneli newydd:  $(-2, -2), (-1, -2), (-2, 0)$ .

Ymarfer 24 Adolygu

(a)  $K = (-4, -3)$  (b) Yr ateb yw -2 gan fod y pwynt  $(-2, 1)$  ar y llinell PQ.

(c)  $P = (-3, 3), Q = (0, -3)$ . Cyfesurynnau-x:  $-3 + 0 = -3$   
 $-3 \div 2 = -1.5$

(ch)  $(-2, -2), (-3, -5), (-2, -6)$  Cyfesurynnau-y:  $3 + (-3) = 3 - 3 = 0$   
 $0 \div 2 = 0$

(d)  $(-9, 0)$  a  $(-6, -6)$  neu  $(3, 6)$  a  $(6, 0)$ . Y canolbwynt yw  $(-1.5, 0)$ .



To re-order contact YPO on 01924 834834  
[www.ypo.co.uk](http://www.ypo.co.uk)

made with care in the UK  
from sustainable sources



Llyfr Addlygu

Blwyddyn 8


Mathemateg

Dr. Gareth Evans

Ar ddiwedd pob uned o waith, rhaid cwblhau o leiaf **pedair** tudalen yn y llyfr yma. Cofiwch gynnwys:

- Sylwadau am y gwaith;
- Mathemateg sy'n gywir;
- Amrywiaeth o enghreifftiau.


Ceisiwch gymryd balchder yng nghyflwyniad eich gwaith.




Rwyt wedi cynnwys nifer fawr o sylwadau deallus am dy waith. Nid oes camgymeriadau yma. Mae'r adolygu yn fanwl ac yn drylwyr. Mae cymysgedd da o enghreifftiau i'w gweld. Mae'r cyflwyniad yn ardderchog, gyda defnydd gofalus o liw.



Rwyt wedi cynnwys nifer fawr o sylwadau am dy waith. Mae nifer fechan o gamgymeriadau yma. Mae'r adolygu yn fanwl. Rwyt wedi cynnwys sawl enghraifft, ond nid oes digon o amrywiaeth. Mae'r cyflwyniad yn dda ac wedi ei osod allan yn glir.



Rwyt wedi cynnwys sylwadau am dy waith, ond nid llawer. Mae'r taflenni'n dangos ychydig yn ormod o gamgymeriadau. Nid oes digon o enghreifftiau yn cael eu rhoi. Does dim trefn ar yr adolygu, ac nid yw lliw yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol.



Nid oes sylwadau am y gwaith yma. Mae'r adolygu naill ai heb ei orffen neu'n cynnwys gormod o gamgymeriadau. Nid yw'r taflenni'n dangos digon o enghreifftiau perthnasol. Mae'r cyflwyniad yn wael; nid wyt wedi ystyried beth yw'r ffordd orau o osod y gwaith allan.



@mathe/mateg

Yr Adran Fathemateg

[www.mathemateg.com](http://www.mathemateg.com)



@mathemateg



/mathscreuddyn



Moodle Mobile



Adolygu Mathemateg



LLYFR  
ADOLIGU  
BLWYDDYN  
8

# FFACTORAU A LLUOSRIFAU

Ail Isradd a Thrydydd Isradd. Ffactorau a Rhifau Cysefin.  
Diagramau Venn. Y Ffurf Indecs. Ffactor Cyffredin Mwyaf,  
Lluosrif Cyffredin Lleiaf

## Ail Isradd a Thrydydd Isradd

$$6^2 = 6 \times 6 = 36$$

$$4^3 = 4 \times 4 \times 4 = 16 \times 4 = 64$$

$$\begin{array}{r} 16 \\ \times 4 \\ \hline 64 \end{array}$$

### Enghreifftiau

$$\sqrt{16} + \sqrt{25} = 4 + 5 = 9$$

$$3^3 \times 3\sqrt{8} = 3 \times 3 \times 3 \times 2 = 27 \times 2 = 54$$

$$8^2 - \sqrt{49} = 64 - 7 = 57$$

$\sqrt{36} = 6$   
Mae ail isradd 36 yn 6 gan fod 6 wedi ei sgwario yn 36.

$\sqrt[3]{64} = 4$   
Mae thrydydd isradd 64 yn 4 gan fod 4 wedi ei giwbio yn 64.

(yth wedi ei sgwario bynnu ail isradd pedwar deg naw)

## Ffactorau a Rhifau Cysefin

Mae ffactor yn rif sydd yn rhannu i mewn i rif arall. Er enghraifft, mae 4 yn ffactor o 20 gan fod 4 yn rhannu i mewn i 20. (Neu, mae 20 yn nhabl 4.) Er mwyn rhestru holl ffactorau rhif, meddyliwch am yr holl symiau llusgi sy'n gwneud y rhif hwnnw.

a) Rhestrwch holl ffactorau 24. b) Rhestrwch holl ffactorau 54

$$\begin{aligned} 24 &= 1 \times 24 \leftarrow \text{Mae pob rhif yn nhabl 1.} \\ &= 2 \times 12 \\ &= 3 \times 8 \leftarrow \text{Mae swm digidau 24, } 2+4=6, \text{ yn nhabl 3, felly mae 24} \\ &= 4 \times 6 \end{aligned}$$

$$\begin{aligned} 54 &= 1 \times 54 \leftarrow \text{Mae 54 yn eilrif felly mae'n lluosrif 2} \\ &= 2 \times 27 \\ &= 3 \times 18 \leftarrow \text{Mae'n arfer dda nodi ffactorau o'r} \\ &= 6 \times 9 \end{aligned}$$

Ffactorau 24 yw 1, 2, 3, 4, 6, 8, 12, 24.

Ffactorau 54 yw lleiaf i'r mwyaf. 1, 2, 3, 6, 9, 18, 27, 54.

Mae rhif yn rhif cysefin os yw efo dau ffactor yn union, sef 1 a'r rhif ei hun.

$$9 = 1 \times 9 = 3 \times 3$$

$13 = 1 \times 13$   
Mae gan 13 dau ffactor.  
Mae 13 yn rhif cysefin.

$$18 = 1 \times 18 = 2 \times 9 = 3 \times 6$$

Mae gan 18 chwe ffactor.  
Nid yw 18 yn rhif cysefin.

Mae gan 9 dri ffactor. Nid yw 9 yn rhif cysefin.

Y rhifau cysefin rhwng 1 a 100


2, 3, 5, 7, 11, 13, 17, 19, 23, 29, 31, 37, 41, 43, 47, 53, 59, 61, 67, 71, 73, 79, 83, 89, 97

Mae'r we yn dibynnu ar rifau cysefin er mwyn sicrhau ei ddiogelwch.


# Diagramau Venn

Wedi eu cyflwyno gan John Venn yn 1880.  
Bob amser yn cynnwys:

- Set gynhwysol  $E$ , sef petryal sy'n cynnwys pob dim o dan sylw.
- Un neu fwy o gykloedd, wedi'u labelu.
- Eitemau o'r set gynhwysol yn y lleoliadau cywir.



## Enghraifft



$E = \{1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10\}$


$A =$  yr odrifau

$B =$  lluosrifau 5

↑ os yn styc, ceisiwch restru'r eitemau sydd yn mynd i A neu B, ee.  $A = \{1, 3, 5, 7, 9\}$   
 $B = \{5, 10\}$ .


## Nodiant set

$A \cap B$  (A croestoriad B)




Perthyn i A ac i B

$A \cup B$  (A uniad B)




Perthyn i A neu B

$A'$  (cyflenwad A)



Ddim yn perthyn i A

## Enghraifft



$E$

$E = \{1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12\}$


$A =$  yr eilrifau

$B =$  lluosrifau 4


$C =$  rhifau llai na 7

↑ Nid oes rhaid llenwi pob manbarth â rhif!

$A' \cup B$




$A' \cap B \cap C$




# Enghraifft Mae'r prifathro'n ceisio

brefnur amseren ar gyfer disgyblion blwyddyn 10. Mae 100 o ddisgyblion yn y flwyddyn i gyd. Mae 28 wedi dewis addysg gorfforol. Mae 31 wedi dewis busnes. Mae 42 wedi dewis hanes. Mae 9 wedi dewis addysg gorfforol a busnes. Mae 10 wedi dewis addysg gorfforol a hanes. Mae 6 wedi dewis busnes a hanes. Mae 4 wedi dewis y tri phwnc. Sawl disgybl sydd wedi dewis dim un o'r pynciau yma?



Ateb: 20 disgybl. Mae'n bosib ysgrifennu unrhyw rif cyfansyn fwy nag un fel lluoswm ei ffactorau cysefin.

## Y Ffurff Indecs




Mae'n bosib defnyddio'r ffurf indecs i ysgrifennu unrhyw rif cyfansyn fwy nag un fel lluoswm ei ffactorau cysefin. Yn yffurf indecs, rydym yn defnyddio pwerau i ddangos sawl gwaith mae rhif yn ymddangos yn y swm lluswi ar gyfer lluoswm y ffactorau cysefin.

- Ar gyfniannell, i gael y ffurf indecs ar gyfer rhif,
  - Teipiwch y rhif i mewn
  - Pwyswch [=]
  - Pwyswch SHIFT, [0555] (FACT)


↑ gwerthio ar gyfer gyfrifiannellau (ASIC)

Ffaith: wrth ysgrifennu unrhyw rif sgwâr yn yffurf indecs, mae'r holl bwerau yn neirifau. (Felly, os nad yw'r holl bwerau'n eirifau, MID yw'r rhif yn rhif sgwâr.)




Gellir ysgrifennu 5 fel 5<sup>1</sup> ond nid oes angen cynnwys yr un yn y ffurf indecs.

Er mwyn darganfod ail isradd rhif sgwâr, hanerwch y pŵerau yn y ffurf indecs.



$144 = 2 \times 2 \times 2 \times 2 \times 3 \times 3$   
 Lluoswm Ffactorau Cysefin  
 $144 = 2^4 \times 3^2$   
 Y Ffurff Indecs  
 $\sqrt{144} = 2^2 \times 3^1$   
 $\sqrt{144} = 4 \times 3$   
 $\sqrt{144} = 12$



Er mwyn llusosi / rhannu rhif er mwyn ei newid i fod yn rhif sgwâr,

(a) Ysgrifennwch y rhif yn y ffurf indecs ; (b) lluoswch / rhannwch y rhif efo'r rhifau yn y ffurf indecs nad yw efo pŵer sy'n eilrif.

E.e.  $68 = 2^2 \times 17$   
 Angen llusosi / rhannu efo 17 i newid i rif sgwâr  
 $68 \times 17 = 1156 \quad (34^2)$   
 $68 \div 17 = 4 \quad (2^2)$

$792 = 2^3 \times 3^2 \times 11$   
 Angen llusosi / rhannu efo  $2 \times 11 = 22$  i newid i rif sgwâr  
 $792 \times 22 = 17424 \quad (132^2)$   
 $792 \div 22 = 36 \quad (6^2)$

$810 = 2 \times 3^4 \times 5$   
 Angen llusosi / rhannu efo  $2 \times 5 = 10$  i newid i rif sgwâr  
 $810 \times 10 = 8100 \quad (90^2)$   
 $810 \div 10 = 81 \quad (9^2)$

Ffactor Cyffredin Mwyaf (FFCM) a Lluosrif Cyffredin Lleiaf (LlCLI)

FFCM dau rif yw'r rhif mwyaf sy'n ffactor o'r ddau rif.

LlCLI dau rif yw'r rhif lleiaf sy'n lluosrif o'r ddau rif.

Enghraifft Beth yw FFCM a LlCLI 24 a 36?

**DULL 1** → Defnyddio'r ffactorau a'r lluosrifau.

Ffactorau 24 yw 1, 2, 3, 4, 6, 8, 12, 24  
 Ffactorau 36 yw 1, 2, 3, 4, 6, 9, 12, 18, 36

Y rhif mwyaf sy'n ymddangos yn y ddwy restr yw 12. Felly 12 yw Ffactor Cyffredin Mwyaf 24 a 36.


Lluosrifau 24 yw 24, 48, 72, 96, 120, ...

